



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

08 Ebrill 2022

9:00 yb to 12:00 yp

Trwy gyfrwng Zoom

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Alison Kemp (yn mynychu ar ran Bethan E Jones), Catrin Roberts, Cyng. Bobby Feeley, Cyng. John Pritchard, Delyth Lloyd-Williams, Dr Lowri Brown, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Fôn Roberts, Helen Corcoran, Iwan Davies, Lucy Reid, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Neil Ayling, David Soley (yn mynychu ar ran Nicola Stubbins), Ricki Owen, Shan Lloyd Williams, Teresa Owen.
Ymddiheuriadau:	Ann Woods, Bethan E Jones, Cyng. Christine Jones, Cyng. Cheryl Carlisle, Cyng. Llinos Medi Huws, Cyng. Dafydd Meurig, Chris Stockport, Dave Hughes, Jenny Williams, Jo Whitehead, Nicola Stubbins, Rob Smith, Sam Parry, Sian Tomos.
Hefyd yn bresennol:	Philip Provenzano, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Matt Jenkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaeth a Chydweithredu, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen) Shelley Davies, Pennaeth Partneriaethau ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

2 Gwerthuso'r Rhaglen Drawsnewid

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf ar fersiwn derfynol Rhaglen Cronfa Drawsnewid Gogledd Cymru.

Yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod ym mis Mawrth, mae'r adborth a'r sylwadau a gafwyd wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad terfynol, ac mae'r newidiadau wedi'u hamlygu isod:

- Cytunwyd ar drefniadau'r cyllidebau cyfun o fewn ffrwd waith Anableddau Dysgu Ynys Môn.
- Yn null llif gwaith Cymunedau a fabwysiadwyd yn ardaloedd y Gorllewin a'r Canolbarth defnyddiwyd asiantau dros newid ar draws y rhanbarth i gefnogi gwasanaethau gweithredol sydd eisoes yn bodoli er mwyn datblygu a darparu'r newidiadau angenrheidiol. Dilynodd ardal y Dwyrain lwybr gwahanol gan ganolbwyntio ar wella gwasanaethau gweithredol yn uniongyrchol drwy ddefnyddio staff.
- Newid mewn terminoleg yn gysylltiedig â thŷ Marleyfield.
- Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Grant Thornton yn ffrwd waith Cymunedau, sydd nawr wedi'i gwblhau.

Roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cytuno (yn amodol ar gadarnhad gan aelodau etholedig) y dylid cadarnhau'r Adroddiad Gwerthuso Trawsnewid, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill 2022, a bydd fersiwn hawdd ei ddeall o'r adroddiad terfynol yn cael ei lunio a'i gyhoeddi.

Cam Gweithredu:

- Anfon adroddiad Gwerthuso'r Rhaglen Drawsnewid at Lywodraeth Cymru – RW

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am Ailgydbwysio Gofal a Chymorth

Mynychodd MJ a SD y bwrdd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ailgydbwysio Gofal a Chymorth, sy'n deillio o'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru a gwblhawyd ar 6.4.2021.

Mae Papur Gwyn Ailgydbwysio Gofal a Chymorth yn amlinellu cynigon i wella trefniadau gofal cymdeithasol a lles unigolion drwy gryfhau partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014), gan adeiladu ar sylfeini cadarn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Chymru Iachach. Mae'r Rhaglen Ailgydbwysio wedi ymrwymo i greu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gofal a chymorth wedi'i gomisiynu, sefydlu Swyddfa Genedlaethol i oruchwylio'r modd y rhoddir y fframwaith hwn ar waith, a chryfhau trefniadau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fel bod gweithio ar y cyd yn darparu ar gyfer y boblogaeth leol.

Cyfeiriodd MJ at rai o'r materion cenedlaethol yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Mewn cyfnod hynod o anodd i bawb, wrth ymdrin ag effaith Covid ac argyfwng y farchnad lafur, gweithiodd y partneriaid gyda'i gilydd er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a diwallu anghenion eu poblogaeth.
- Yng nghyd-destun rôl polisi Llywodraeth Cymru, cwblhawyd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, bydd ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cael ei chreu drwy fecanwaith yswiriant gwladol o fis Ebrill 2022 ymlaen; bydd y gyllideb derfynol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd yn sicrhau codiad o 10% ar gyfer y sector iechyd a gofal cymdeithasol; sefydlwyd rôl Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i Gymru a grŵp cenedlaethol o arbenigwyr a sefydlwyd i fwrw ymlaen â datblygu gwasanaeth gofal cymdeithasol, a rhaglen bolisi uchelgeisiol yn ymwneud â phlant a Phlant sy'n Derbyn Gofal.
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw iddi i greu fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer gofal a chymorth a fydd yn canolbwyntio ar ansawdd a gwerth, a phlatfform o'r mesurau uchelgeisiol yn ymwneud â gweithlu'r dyfodol.
- Gweithio gyda ffrydiau ariannu newydd yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Yn dilyn adborth gan sefydliadau statudol, cytunodd y Gweinidogion na fyddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel endidau corfforaethol cyfreithiol ar hyn o bryd, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r Byrddau i gefnogi dulliau cryfach o weithio mewn partneriaeth.

Soniodd SD fod Grŵp Technegol ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol, ynghyd â 5 Grŵp Tasg a Gorffen Rhanbarthol, sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn cryfhau trefniadau partneriaeth rhanbarthol:

- Bydd Cynllunio a Pherfformiad yn cynnwys adolygu'r dulliau hunanasesu a gyflwynwyd ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, astudio'r Byrddau a gweithio mewn partneriaeth, cydgynhyrchu cylch cynllunio blynyddol gan sicrhau aliniad cynllunio gwell ar lefel ranbarthol, lleol a chlwstwr er mwyn sicrhau bod pob ardal yn rhoi gwybodaeth i'w gilydd.
- Ymgysylltu a Llais - adolygu'r heriau o ran ymgysylltu, cryfhau ymgysylltiad ac esbonio swyddi a chyfrifoldebau, cryfhau'r canllawiau ynghylch ymgorffori dulliau cydgynhyrchu ehangach drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) a Chymru Iachach.
- Ailgydbwysu'r Farchnad Gofal Cymdeithasol - canolbwyntio ar gael gwared ag elw o'r maes gofal, sicrhau amrywiaeth a sefydlogrwydd ar draws y farchnad er mwyn gwella cadernid a hyblygrwydd drwy'r farchnad. Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn llywio'r maes gwaith hwn.
- Bydd Darpariaeth Gwasanaethau Integredig yn edrych ar greu glasbrint er mwyn ymateb i'r damcaniaethau a rhannau o system integredig yn cynnwys y

gweithlu, digidol, sicrhau adnoddau, llywodraethu a fframwaith canlyniadau. Bydd y Ddarpariaeth Gwasanaethau Integredig hefyd yn adolygu cronfeydd ariannol wedi'u cyfuno, gan ddysgu o gyllidebau cyfun ar raddfa lai a hyrwyddo adnoddau ar y cyd, a chydabod y cymhlethdod a'r heriau sy'n gysylltiedig â threfniadau cronfeydd ariannol wedi'u cyfuno.

- Bydd Llywodraethu a Chraffu yn adolygu ac esbonio trefniadau atebolrwydd a chraffu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, a bod yn ymwybodol mai cyfrifoldeb y ddau bartner statudol yw'r ddyletswydd i gydweithredu a chydweithio, a sicrhau bod gan y Byrddau ddigon o adnoddau fel y gellir cyflawni eu holl ddyletswyddau ac mae hyn yn rhan o'r gwaith drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol.

Byddai cyfuno'r gwaith ar y 5 maes uchod yn y pen draw yn diweddarau Rhan 9 Canllawiau Statudol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014).

Rhoddodd SD gydnabyddiaeth i'r gefnogaeth a geir gan arweinwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r ymroddiad amser i ddylunio'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a chronfeydd Cyfalaf. Mae gweinidogion yn chwilio am ddull cenedlaethol cyson drwy'r 6 model gofalu cenedlaethol, gan sylweddoli efallai y bydd y modd y cânt eu darparu'n amrywio rhwng ardaloedd. Dros y 5 mlynedd, bydd Llywodraeth Cymru'n gobeithio gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriad er mwyn llunio ac ymgorffori'r 6 model cenedlaethol yn y ddarpariaeth prif ffrwd.

Ochr yn ochr â'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae'r rhaglenni Cyfalaf wedi cael eu lansio:

- Canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig - mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y canllawiau ehangach. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r cynllun braenaru er mwyn rhoi ceisiadau ar y trywydd cyflym i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflawni'n llawn yn erbyn gwariant blwyddyn ariannol 2022-23.
- Ailgydbwysu'r farchnad gofal preswyl - ystyrir cyfleoedd buddsoddi cyfalaf er mwyn ailgydbwysu'r sector gofal preswyl.

I gloi, dywedodd SD fod Rheolwyr Cysylltiadau Llywodraeth Cymru wedi cael eu neilltuo ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a bydd Shelley Davies a Richard Ellis yn cefnogi gydag agweddau allweddol ar ddarparu'r gwasanaethau integredig, yn cynnwys y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a Rhan 9 cynllunio trefniadau comisiynu.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Sut gallwn ni benderfynu bod y system ar ei gorau i gyflawni'r canlyniad dymunol heb amharu ar y strwythurau llywodraethu sydd eisoes yn bodoli, gan gofio'r amryw o fyrddau partneriaeth sy'n bodoli'n barod - Byrddau

Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Integredig.

Dyweddodd SD fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad strategol o dirlun partneriaethau, a dengys canfyddiadau cynnar bod rhai ardaloedd lleol yn bwriadu ystyried y gwaith hwn yn hytrach na derbyn cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am anghenion cymorth pobl a'r gwaith ataliol i ymdrin â'r anghenion hynny. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfrifol am ystyried ffactorau lles ehangach h.y. diwylliant, amgylchedd, economi. Dylai partneriaid ystyried y gwerth gorau, ac osgoi dyblygu. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu trafodaeth drwy reolwyr cysylltiadau Llywodraeth Cymru er mwyn llunio'r tirlun ar y mater hwn.

- Sut ydym ni'n osgoi dibynnu gormod ar gronfeydd ariannu a symud cyllid craidd i fodelau eraill.

Bydd cyfleoedd newydd o fewn modelau gofal y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol yn neilltuo lle er mwyn galluogi rhywfaint o arloesedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gobeithio lleihau'r cyllid dros amser ac felly bydd angen i adnoddau partneriaid statudol fod yn effeithiol yn y tymor canolig/hir.

- Sut gallwn ni sicrhau bod y gwaith Datblygu Clwstwr Carlam, sy'n ganolog i waith cynllunio a chomisiynu yn y dyfodol, yn cael y llais cywir yn y man cywir.

Bydd adolygiad Rhan 9 yn ystyried rolau, cyfrifoldebau ac aelodaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a sicrhau hefyd bod Gofal Sylfaenol â llais o fewn y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn sicrhau y gall y trefniadau clwstwr ac aml-glwstwr gyfrannu'n effeithiol. Bydd y trefniant ymgysylltu a strwythur y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn sicrhau mecanwaith llinyn aur rhwng yr holl grwpiau.

- Mae gwir angen cyllid craidd priodol ar gyfer gofal cymdeithasol a'r strwythur cenedlaethol er mwyn gosod ffioedd gofal, o flaen llaw, i gynorthwyo at ddibenion cynllunio ffioedd yn yr hirdymor.

Bu cyd-destun ariannu gofal cymdeithasol yn heriol am lawer o flynyddoedd, ac wrth gdnabod y cafwyd nifer o flynyddoedd anodd, mae'r codiad presennol o 10% yn setliad y gyllideb, y gyllideb 3 blynedd a fyddai'n cynnwys cronfa diwygio Gofal Cymdeithasol a chyfloedd cyfalaf, yn gam ymlaen o ran adnoddau, yn cynnwys gosod £180m yn llinell sylfaen gofal cymdeithasol sy'n caniatáu ar gyfer ymrwymiad y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar y Bwrdd a symud o raglen ariannu flynyddol i raglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol dros 5 mlynedd, sy'n gam mawr ymlaen gan ystyried pa mor anwadal yw cyllideb Llywodraeth Cymru o fewn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant.

- Holwyd ar lefel genedlaethol a yw'r adnoddau wedi cael eu rhannu'n deg rhwng yr holl sectorau, a rhaid i'r mater hwn fod yn brif allbwn yn yr arolwg cenedlaethol o waith gofal. Un defnydd mwy buddiol i'r arian fyddai rhannu'r adnoddau rhwng y cymunedau, y sector tai, cartrefi gofal a symud y GIG ymhellach allan i'r cymunedau. Er bod yr Awdurdodau Lleol wedi croesawu setliad gwell eleni, nid yw'n caniatáu iddyn nhw symud mwy o waith allan i'r gymuned.

Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu edrych all-lein er mwyn ailosod darpariaeth gymunedol a symud ymlaen o hen batrymau gweithio a chymryd cam ymlaen o ddulliau trawsnewid i'r gymuned.

I gloi, cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru eu bod yn cydnabod eu bod yn setliadau anodd i'r sector cyhoeddus. Er nad yw'n ddigon i dalu am bopeth y byddai'r sector eu hangen, mae hwn yn gam ymlaen ac yn fan cychwyn i'r sector.

Diolchodd y cadeirydd i MJ a SD am fynychu cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'r Bwrdd yn edrych ymlaen at weithio gyda SD a RE fel rheolwyr cysylltiadau yn y dyfodol.

4 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid yn y Dyfodol a chynllunio cynaliadwyedd

Strwythur Llywodraethu Rhanbarthol

Rhoddodd CR adroddiad manwl er mwyn cytuno ar y strwythur llywodraethu i gefnogi'r Gronfa Isadeiledd Rhanbarthol, y Gronfa Tai â Gofal a Chronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu.

Mae model newydd y Gronfa Isadeiledd Rhanbarthol a Chronfa Gyfalaf y Gronfa Tai â Gofal yn canolbwyntio ar 6 Model Gofalu Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i allu dangos y gwahaniaeth a wnaed yn erbyn pob un o'r modelau hyn a'i sefydlu fel safon ar draws Cymru.

Mae'r strwythur llywodraethu rhanbarthol presennol yn cynnwys y Bwrdd Trawsnewid Cymunedau, Bwrdd Trawsnewid Anableddau Dysgu, Bwrdd Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Bwrdd Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc. Yn ogystal â hyn, ceir grŵp llywio ar gyfer Dementia, a grwpiau strategol ar gyfer y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a grantiau'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r strwythur hwn wedi'i hen sefydlu ac mae'n sicrhau bod yr holl bartneriaid wedi'u cynnwys. Mae'n golygu hefyd bod y strwythur yn cefnogi'r Model Gofal ac yn diwallu anghenion canlyniadau Llywodraeth Cymru a'r strwythur adrodd.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys:

- Cael gwared â'r Bwrdd Trawsnewid Cymunedau a gwaith y rhaglen Gofal yn y Gymuned i gael ei bennu a'i reoli ar lefel ardal y Bwrdd Gwasanaethau Integredig.
- Y Grŵp Strategol Awtistiaeth Integredig a'r Grŵp Llywio Dementia i gael eu datblygu'n Fyrddau Rhaglen.
- Adolygu sut mae elfen Cronfa Isadeiledd Rhanbarthol y Bwrdd Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cael ei rheoli dan y bwrdd presennol gan fod cylch gwaith y bwrdd hwnnw'n ehangach na dim ond y Gronfa Isadeiledd Rhanbarthol.
- Creu Bwrdd Rhaglen newydd yn benodol ar gyfer Cyfalaf oherwydd lefel a chymhlethdod y cyfalaf a ddaw i'r rhanbarth.

Bydd pob bwrdd yn bwydo Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac eithrio'r bwrdd Plant a fydd yn bwydo'r is-grŵp Plant o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru sydd wedi'i sefydlu o'r newydd.

Gofynnir i'r Bwrdd:

1. Gymeradwyo'r strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer mabwysiadu, gan sylweddoli y bydd angen gwneud mwy o waith ar gryfhau cysylltiadau gwaith ehangach y tîm cydweithredu rhanbarthol h.y. gweithlu, comisiynu, Hwb Ymchwil, Arloesi a Gwella ayb - bydd gwaith yr Hwb yn cefnogi gwaith y Gronfa Isadeiledd Rhanbarthol.
2. Sicrhau bod y strwythur yn cael ei roi ar waith ac adolygiad yn cael ei gynnal o bob bwrdd rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.

Yn dilyn y cyflwyniad, codwyd y pwyntiau canlynol:

Fel cadeirydd bwrdd Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, nid oedd LR yn ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei ystyried a nododd ei bod yn teimlo'n anghyfforddus ynghylch cytuno ar y newidiadau i'r strwythur heddiw'n seiliedig ar yr adroddiad. Esboniodd LR y byddai angen i'r aelodau o fwrdd Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl drafod a deall y newidiadau sy'n cael eu cynnig, gan mai dim ond yn ddiweddar y gwnaethon nhw gymeradwyo eu cylch gorchwyl.

Cadarnhaodd CR y cynnig dan y Gronfa Isadeiledd Rhanbarthol, sef parhau i lunio cyswllt rhwng gwaith y rhaglen Iechyd a Lles Emosiynol a'r bwrdd Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Ni fydd y newidiadau a gynigir yn effeithio ar y Cylch Gorchwyl sydd wedi'i ddiweddarau, dim ond sut bydd y Bwrdd Trawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn gweithio'n ymarferol.

Pwysleisiodd AK mor bwysig yw sicrhau fformat er mwyn cydlynu gwaith y gwasanaethau i Bobl Hŷn a Datblygu Clwstwr Carlam er mwyn sicrhau bod gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru drosolwg rhanbarthol o ddatblygiad y gwaith hwn.

Cytunai CR, ac ar ôl cytuno ar y strwythur a gyflwynir heddiw, edrychir ar gefnogaeth ranbarthol er mwyn cynorthwyo'r Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal i reoli'r gwaith eang hwn.

Mae'r tîm rhanbarthol ar hyn o bryd yn y broses o gwblhau dogfennau'r rhaglen ar gyfer y Gronfa Isadeiledd Rhanbarthol newydd:

- Cynllun Buddsoddiad Strategol
- Cynllun 7 Model Gofalu (mae Anableddau Dysgu yn ychwanegol at 6 Model Gofalu gwreiddiol Llywodraeth Cymru):
 - Gofal yn y gymuned - atal a chydlynu cymunedol
 - Gofal yn y gymuned - gofal cymhleth yn nes at y cartref
 - Hyrwyddo iechyd a lles emosiynol da
 - Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel, a chymorth therapiwtig ar gyfer plant sydd â phrofiad o'r system ofal.
 - Gwasanaeth gartref o'r ysbyty
 - Atebion yn seiliedig ar lety
 - Anableddau Dysgu

Ar ôl i'r Modelau Gofalu gael eu datblygu, bydd y fersiynau drafft yn cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi sicrwydd bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith ac i dderbyn adborth ar y dogfennaeth. Mae'r gwaith ar ffurf drafft ar hyn o bryd a bydd yn cael ei rannu â'r Bwrdd yn gynnar yr wythnos nesaf. Er mwyn darparu lefel y manylion sydd eu hangen ar aelodau'r Bwrdd, trefnir tri sesiwn briffio ar ôl y Pasg i drafod y dogfennau'n fanwl a rhoi cyfle i aelodau fynd drwyddyn nhw a gofyn cwestiynau. Bydd angen i aelodau fynychu un o'r sesiynau hyn. Cyflwynir y drafft terfynol i bawb gyntuno arno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai (yn amodol ar fod cworwm yn y cyfarfod).

Roedd y Bwrdd yn cytuno bod:

- Y strwythur llywodraethu arfaethedig yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gael ei fabwysiadu, gan gofio bod Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl y tu hwnt i drosolwg y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Y strwythur i gael ei roi ar waith gan gofio bod Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl y tu hwnt i drosolwg Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, ac y cynhelir adolygiad o bob bwrdd rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022.
- Gwneir y gwaith hwnnw i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr amrywiol fyrddau a'r ffrydiau gwaith rhwng 1 Ebrill 2022 a 30 Mehefin 2022, gan gofio bod gweithdrefnau llywodraethu Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd

Meddwl y tu hwnt i gylch gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Cyllid Cyfalaf Rhanbarthol

2 gronfa gyfalaf:

1. Cronfa dros 4 blynedd y Gronfa Tai â Gofal, £14.2m (50% o gynnydd ers cyllid blaenorol y Gronfa Gofal Integredig), dyraniad blynyddol a neilltuwyd ar gyfer Gogledd Cymru wedi'i gadarnhau ac yn seiliedig ar y fformiwla HB hanesyddol, gyda 3 amcan:
 - Gweld cynnydd sylweddol yn stoc bresennol tai â gofal
 - Cynyddu stoc lleoliadau gofal canolradd a thymor byr-canolig
 - Prosiectau bach
2. Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu (IRCF) - cronfa 3 blynedd wedi'i neilltuo yn ôl proses gynigion - £50m 22-23, £60m 23-24 a £70m 24-25, 2 flaenoriaeth:
 - Datblygu canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig
 - Mynd i'r afael ag ailgydbwysu'r farchnad gofal preswyl

Esboniodd CR fod cryn dipyn o waith i'w wneud er mwyn cynllunio ar gyfer cyfnod y 2 gronfa gyfalaf, mae yna hefyd angen brys i sicrhau bod y rhanbarth yn barod i gael mynediad at ddyraniad blwyddyn 1 a'i wario. Nid yw'r canllawiau terfynol wedi cael eu cyhoeddi hyd yma ar gyfer y naill gynllun na'r llall, ac mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu prosiect braenaru ar gyfer cynllun Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwysu i roi ceisiadau ar y trywydd cyflym wrth baratoi'r canllawiau ehangach.

Mae partneriaid yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu dogfennau Cynllun ac Amcanion y Rhaglen er mwyn nodi eu blaenoriaethau dros 10 mlynedd. Mae'r tîm rhanbarthol wedi cwrdd â Swyddogion Arweiniol Tai Cymdeithasol yr Awdurdodau Lleol i ddeall cynlluniau posibl a allai gael eu cynnwys o dan y Gronfa Tai â Gofal ym Mlwyddyn 1, i sicrhau cymaint o gyllid â phosibl. Ar sail y wybodaeth hon, bydd y tîm rhanbarthol hefyd yn datblygu'r gronfa buddsoddiad cyfalaf rhanbarthol amlinellol a gyflwynir i'r Bwrdd ym mis Mai i gael ei chymeradwyo.

Mae panel o Lywodraeth Cymru a fydd yn ystyried ceisiadau eisoes wedi'i drefnu ar gyfer Mai, Mehefin a Gorffennaf. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd er mwyn nodi cynlluniau hyfwr a chasglu ar gyfer y broses fraenaru, gan anelu at gael o leiaf un cais erbyn y dyddiad cau ar 27.4.22 i'r panel cyntaf ym mis Mai. Yn sgil y brys i gael y Bwrdd i gytuno cyn y dyddiad cau ar 27.4.22, bydd y ceisiadau'n cael eu hanfon ymlaen dros e-bost, er nad dyma'r ffordd ddelfrydol i ddod i gytundeb, bydd yr aelodau etholedig yn dal i fod yn eu swyddi a gellir osgoi materion diffyg cworwm.

Cytunodd y Bwrdd i:

- Gytuno ar y rhaglen gyfalaf ehangach - cyflwynir y rhaglen lawn i'r Bwrdd ym mis Mai.
- Cynlluniau posibl i gael eu cyflwyno i'r prosiect braenaru, i gael eu rhannu dros e-bost yn barod ar gyfer y dyddiad cau ar 27.4.22.

Camau Gweithredu:

- Sesiynau briffio am Gyllid yn y Dyfodol a chynllunio cynaliadwyedd i'w trefnu – RW
- CR/LR - i drafod trefniadau llywodraethu Law yn Llaw at IM
- Cyflwyniad PowerPoint am y Gronfa Isadeiledd Rhanbarthol i gael ei rannu – RW

5 Y wybodaeth ddiweddaraf am BIPBC - Ailstrwythuro BIPBC

Rhoddodd TO gyflwyniad am fodel newydd 'Cryfach gyda'n Gilydd' BIPBC sy'n cael ei weithredu.

Mae'r Model Gweithredu'n disgrifio sut mae busnes y Bwrdd lechyd yn cael ei drefnu, pwy sy'n gyfrifol am beth, pwy sy'n arwain ac yn rheoli a'r prosesau sy'n galluogi hyn i ddigwydd.

Mae'r Model Gweithredu newydd yn cael ei arwain gan amryw o egwyddorion; mynd i'r afael ag arweinyddiaeth a thystiolaeth glinigol a phenderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos â phosibl at y claf, canolbwyntio ar yr un unigolyn, ffocws ar y gymuned gyda rhwydweithiau rhanbarthol, safonau cyson gyda mynediad cyfartal i'n poblogaeth, gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a sefydliad tosturiol, sy'n dysgu.

Daw'r model newydd â Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, Gofal Eilaidd (Acíwt) a Gwasanaethau Plant i ofal Cymuned lechyd dan arweiniad Cyfarwyddwyr yn y Dwyrain, y Canolbarth a'r Gorllewin. Bydd gan bob un o'r Cymunedau lechyd Gyfarwyddwr atebol fel pwynt cyswllt a strwythur oddi tano. Bydd gwasanaethau Canser, Gwasanaethau Merched, Cymorth Clinigol Diagnostig ac Arbenigol, lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn parhau i fod yn wasanaethau ar draws Gogledd Cymru i gyd.

Y newidiadau yn y model newydd:

- Cymunedau lechyd a fydd yn gyfrifol am sicrhau y canolbwyntir ar y boblogaeth, dulliau atal ac iechyd y cyhoedd
- Cymunedau lechyd fydd yn rheoli gwelyau cleifion mewnol a theatrau sydd o fewn eu hardal ddaearyddol
- Bydd trefniadau gweithredol rheoli cyfleusterau'n symud i'r Gymuned lechyd
- Bydd un pwynt ar draws BIPBC ar gyfer mynediad a rhestrau aros darparu gofal, fel mater o drefn.
- Bydd swyddogaeth gomisiynu unedig yn seiliedig ar y boblogaeth yn cael ei datblygu, gan ddod â'r holl waith comisiynu ynghyd.
- Bydd swyddogaeth addysg gyfannol yn cael ei datblygu - gan ddod â'r holl waith addysg a dysgu ynghyd.
- Bydd Swyddogaethau Corfforaethol yn cael eu hailenwi'n swyddogaethau Cynnal Gwasanaethau.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i benodi ar gyfer swyddi newydd, cefnogi rhai sy'n gadael a throsglwyddo cyfrifoldebau; darparu cymorth datblygu ar gyfer arweinwyr newydd a'u timau newydd a phroses barhaus i gyd-ddylunio strwythurau, prosesau a fframwaith llywodraethu a sicrwydd, yn cynnwys adroddiadau perfformiad, a bydd y Bwrdd yn llunio'r penderfyniad terfynol i 'Fynd yn Fyw' ym mis Gorffennaf.

Dyma'r prif bwyntiau a godwyd yn nhrefnodaeth aelodau'r Bwrdd:

- Bydd y bartneriaeth sydd eisoes yn bodoli yn y Gorllewin, y Dwyrain a'r Canolbarth yn parhau gyda swyddi newydd yn eu lle
- Rhoddir llais cryfach i ofal sylfaenol a chymunedol
- Cedwir cynrychiolwyr y Bwrdd lechyd ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Cytunodd TO y byddai'n diweddarau'r Bwrdd eto ym mis Mehefin, pan fydd y strwythur rhwng Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Awdurdodau Lleol yn ei le.

Cam Gweithredu:

- Diweddariad ail strwythuro BIPBC - agenda mis Mehefin – RW

6 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynnydd Gwerth Cymdeithasol Rhanbarthol

Esboniodd NA fod Grŵp Llywio y Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Mae aelodaeth y Grŵp wedi ymestyn i gynnwys gwasanaethau statudol a cheir presenoldeb da iawn yn y cyfarfodydd. Sir y Fflint sydd bellach yn cadeirio, wedi i John Gallanders ymddeol ddiwedd mis Rhagfyr 2021.

Cyfeiriodd NA at yr elfen o fod yn agored yn y grŵp a byddai aelodau'r Grŵp yn hoff iawn o glywed gan unigolion, mewn sefydliadau statudol a phreifat, eu diddordebau a'u syniadau ynghylch ymgymryd â gwerth cymdeithasol, gyda chyfleoedd i ymgysylltu yn y dyfodol.

Nododd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru y wybodaeth yn yr adroddiad.

7 Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf - Mawrth 2022

Cytunodd pawb fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

Materion yn codi:

Adolygiad o'r Bwrdd - ei ohirio tan y rhaglen ym mis Mehefin

Cam Gweithredu:

- Adolygiad o'r BPRhBC – agenda mis Mehefin

8 Unrhyw Fater Arall – dim byd i'w adrodd

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 13 Mai 2022, 9:00 am – 12:00 pm